# HUGHES, JONATHAN (1721 - 1805), bardd

**Enw:** Jonathan Hughes
**Dyddiad geni:** 1721
**Dyddiad marw:** 1805
**Plentyn:** Jonathan Hughes
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Barddoniaeth
**Awdur:** Thomas Parry

Ganwyd 17 Mawrth 1721 yn Pengwern ger Llangollen. Dywedir iddo ddechrau prydyddu yn 15 oed, a chynhyrchodd swm enfawr o farddoniaeth yn y dull a oedd yn gyffredin yn y 18fed ganrif, sef cerddi cynganeddol i'w canu ar alawon adnabyddus y dydd. Ceir carolau plygain a phethau eraill o'i waith yn almanaciau ' Philomath,' Cain Jones, ac eraill yn gyson o tua 1755 hyd ddiwedd y ganrif. Cyfansoddai hefyd ar y mesurau caeth traddodiadol; ysgrifennodd awdl goffa i Richard Morris yn 1780. Ysgrifennodd o leiaf un anterliwt, *Y Dywysoges Genefetha*, 1744. Cyhoeddodd gyfrol o'i waith yn 1778 o dan y teitl, *Bardd a Byrddau*. Yr oedd yn un o eisteddfodwyr mwyaf selog y 18fed ganrif. Yr oedd yn yr eisteddfod beirdd a gynhaliwyd yn Selatyn yn 1748. Yn naturiol yr oedd yn bur amlwg yn yr eisteddfod a gynhaliwyd yn Llangollen yn Ionawr 1789, ac yn eisteddfod Corwen ym Mai y flwyddyn honno ef oedd un o'r tri (' Twm o'r Nant ' a ' Gwallter Mechain ' oedd y lleill) y methwyd penderfynu rhyngddynt, a gorfod gyrru eu gwaith i Lundain i'w feirniadu gan y Gwyneddigion. Yr oedd hefyd yn eisteddfod y Bala ym Medi 1789. Ond ni bu llawer o lwyddiant ar ei gynigion fel bardd eisteddfod; canu carolaidd y 18fed ganrif oedd ei ddifyrrwch, ac â'r math hwnnw o farddoniaeth yr ymddifyrrodd fwyaf o lawer. Bu farw 25 Tachwedd 1805. Yr oedd ei fab, o'r un enw (1753 - 1834?), yntau'n brydydd, a chyhoeddodd *Gemwaith Awen, Gwaith Beirdd Collen*, yn 1806. Ei waith ef ei hun oedd y rhan fwyaf o gynnwys y gyfrol. Yr oedd mab iddo yntau, Jonathan Hughes arall eto (1797 - 1860?), ymysg y beirdd mewn eisteddfod yn Llangollen yn 1833.

## Awdur

**Syr Thomas Parry**, (1904 - 1985)

## Ffynonellau


Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 407

*Cymru (O.M.E.)*, 1897, 94

*Yr Haul*, 1893, 165

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1891-2, 128

*Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, xiv, 11; xv, 88


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Jonathan Hughes

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 36789088

Wikidata: Q6273443


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu